Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Cyngor Sir Ceredigion**

**Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019 – 2020**

**Cyflwyniad**

Ni fydd Cyngor Sir Ceredigion yn caniatáu caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ein sir nac yn ein cadwyni cyflenwi. Byddwn hefyd yn gwneud yn siŵr bod gennym systemau ar waith i sicrhau cyflogaeth foesegol yn ein cadwyni cyflenwi.

Mabwysiadwyd ein Polisi Caethwasiaeth Fodern yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r camau yr ydym wedi'u cymryd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl ac i hyrwyddo cyflogaeth foesegol a thryloywder yn ein cadwyni cyflenwi. Mae ein Cynllun Gweithredu ar *'Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi'* yn nodi sut y byddwn yn gwneud hyn. Rydym yn un o'r 5 Awdurdod Lleol yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i'r Cod.

Rydym hefyd wedi penodi'r Cynghorydd Lyndon Lloyd yn Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth Fodern.

**Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud**

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau, (Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion).

**Ein Polisi ar Gaethwasiaeth Fodern**

Mae Polisi Caethwasiaeth Fodern Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu dull integredig sy'n dwyn ynghyd meysydd allweddol gofal cymdeithasol gan gynnwys diogelu, cymorth polisi, adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, caffael, iechyd yr amgylchedd, argyfyngau sifil posibl, y gwasanaethau tai a digartrefedd, diogelwch cymunedol, safonau masnach a thrwyddedu.

Mae Polisi Atal Caethwasiaeth Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys 12 ymrwymiad Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, ac mae hefyd yn cyfeirio at y prosesau a'r cyfrifoldebau diogelu o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Rydym wedi hysbysu Llywodraeth Cymru ein bod yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â'r Cod.

Rydym yn cydnabod bod rôl Cyngor Sir Ceredigion o ran atal Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys; adnabod a chefnogi dioddefwyr a gweithio mewn partneriaeth yn lleol. Yn arbennig, gellir rhannu'r rôl i bedwar maes penodol:

1. adnabod a chyfeirio dioddefwyr
2. cefnogi dioddefwyr – gallai hyn fod drwy ddiogelu plant ac oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth a thrwy'r gwasanaethau tai / digartrefedd
3. cydlynu gwasanaethau diogelwch cymunedol a chefnogi gweithgareddau i darfu ar unrhyw ddrwgweithredu
4. sicrhau, gymaint ag y gallwn, fod y cadwyni cyflenwi y mae'r Cyngor yn eu caffael yn rhydd o gaethwasiaeth fodern.

**Diogelu a Chynorthwyo Dioddefwyr**

Mae diogelu'n un o'r prif ystyriaethau wrth ddelio â Chaethwasiaeth Fodern ac mae dwy brif ddeddfwriaeth yn mynd i'r afael â hyn, sef Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Cyfeirir at Gaethwasiaeth Fodern yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019. www.safeguarding.wales. Mae'r uchod yn cynnwys diogelu oedolion a phlant.

**Ein Prosesau ar gyfer Mynd i'r Afael â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl a Darparu Cymorth i Oroeswyr**

Mae gennym brosesau ar waith i gefnogi'r rheiny sydd wedi goroesi Caethwasiaeth Fodern.

- Byddwn yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref am ddioddefwyr posib.
- Oherwydd ein bod yn Ymatebwyr Cyntaf o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015, byddwn yn cyfeirio dioddefwyr posib at y Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol (NRM).
- Byddwn yn cyfeirio pob plentyn sydd wedi dioddef at Eiriolwyr Annibynnol Masnachu Plant (ICTAs).

Byddwn yn cynorthwyo dioddefwyr trwy ein gwasanaeth tai a digartrefedd.

Bydd staff Argyfyngau Sifil Posibl Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed Powys ac yn darparu cymorth iddynt os canfyddir dioddefwr / dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern a byddant yn cynorthwyo i gydlynu Canolfannau Derbyn Goroeswyr mewn achosion lle ceir nifer o oroeswyr.

**Ein Cadwyni Cyflenwi**

Byddwn yn cynnwys copi o'n Polisi Caethwasiaeth Fodern a chyfres o gwestiynau am gyflogaeth foesegol ymhob tendr.
Byddwn yn nodi meysydd risg uchel mewn contractau cyfredol ac yn anfon y Cod Cyflogaeth Foesegol at ein partneriaid.
Byddwn yn disgwyl i'n cyflenwyr ymrwymo i'r Cod.

**Ein Harferion Cyflogi**

Rydym wedi mabwysiadu'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

Byddwn yn sicrhau nad ymgymerir â hunangyflogaeth ffug ac na chaiff contractau dim oriau eu defnyddio'n annheg.

Mae ein polisïau'n sicrhau y gall staff ymuno ag undebau llafur o'u gwirfodd.

**Codi Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant**

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth ynghylch caethwasiaeth fodern drwy ein deunydd cyfathrebu corfforaethol a thrwy ddarparu hyfforddiant i'n staff.

**Cyngor Sir Ceredigion**

**Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019 – 2020**

**Llofnod:** Lyndon Lloyd MBE MA

**Y Cynghorydd Lyndon Lloyd**
**Hyrwyddwr Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol Cyngor Sir Ceredigion**

**Dyddiad:** 19 - 12 - 2019

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council